SFJAB8

# Cyfathrebu â phobl o grwpiau agored i niwed

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfathrebu effeithiol â phobl o grwpiau agored i niwed. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:

1 Plant a phobl ifanc
2 Unigolion eraill agored i niwed

Mae'n cynnwys sgiliau a gwybodaeth ynghylch asesu anghenion cyfathrebu, yn ogystal â chyfleu negeseuon anodd.

**Mae tair elfen**
1 Asesu capasiti, dewisiadau ac anghenion pobl agored i niwed o ran iaith a chyfathrebu
2 Cyfathrebu â phobl agored i niwed
3 Cyfleu negeseuon anodd neu sensitif i bobl agored i niwed

**Grŵp Targed**
Mae'r safon hon ar gyfer unigolion sy'n gweithio gyda phobl o grwpiau agored i niwed.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Asesu capasiti, dewisiadau ac anghenion pobl agored i niwed o ran iaith a chyfathrebu**

1. casglu gwybodaeth am gapasiti, dewisiadau ac anghenion cyfathrebu pobl agored i niwed ac eraill sy'n ymwneud â gofalu amdanynt
2. asesu'r capasiti, y dewisiadau a'r anghenion o ran cyfathrebu
3. datblygu cynllun cyfathrebu mewn ymgynghoriad ag eraill
4. trefnu bod cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer cyswllt ffurfiol ac anffurfiol â phobl agored i niwed
5. hybu a gweithredu dull unigolyddol o ymdrin ag anghenion cyfathrebu pobl agored i niwed, gan roi sylw i'w capasiti, eu dewisiadau a'u hanghenion
6. cefnogi pobl agored i niwed i ddatblygu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol

**Cyfathrebu â phobl agored i niwed**

7. defnyddio technegau a dulliau cyfathrebu sy'n addas ar gyfer capasiti, dewisiadau ac anghenion y person agored i niwed
8. gwirio dealltwriaeth y person agored i niwed ac addasu eich dull gweithredu yn ôl y galw
9. gwirio, gan ddefnyddio dulliau addas, bod y person agored i niwed yn deall y prosesau a'r gweithdrefnau y maen nhw'n ymwneud â hwy
10. esbonio wrth y person agored i niwed eich dyletswydd i drosglwyddo unrhyw wybodaeth am niwed neu gamdriniaeth
11. gwirio bod yr amseru, y lle a'r amgylchedd yn cefnogi cyfathrebu effeithiol
12. asesu llesiant a chyflwr emosiynol y person agored i niwed, a'i (g)allu i gyfathrebu
13. rhoi sylw i rywedd, tueddfryd rhywiol, a gwahaniaethau diwylliannol a chrefyddol
14. ymateb yn briodol i ymddygiad a gyflwynwyd
15. cadw cofnodion am y drafodaeth a'i chanlyniadau, yn unol â gofynion sefydliadol

**Cyfleu negeseuon anodd neu sensitif i bobl agored i niwed**

16. canfod hyd a lled dealltwriaeth person agored i niwed o'i sefyllfa, yn ôl oedran, anghenion a galluoedd
17. nodi ac egluro, os bydd angen, pan fydd gan y person agored i niwed wybodaeth anghywir neu gamarweiniol o bosibl
18. cadarnhau drwy holi bod negeseuon anodd wedi'u deall
19. esbonio sefyllfaoedd a bod yn ymwybodol o'r angen am:
    19.1 esbonio geiriau a chysyniadau anodd
    19.2 nodi beth sydd eisoes wedi digwydd neu beth fydd yn digwydd nesaf
    19.3 darparu rhesymau am y camau gweithredu sydd i'w cymryd

20. sicrhau, lle bo gofyn, caniatâd gwybodus y person agored i niwed
21. a, lle bo hynny'n briodol, eu teuluoedd ar gyfer camau gweithredu cytunedig
22. esbonio wrth y person agored i niwed pa wybodaeth y gallai fod angen i chi ei rhannu gydag eraill a pham mae hynny'n angenrheidiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Deddfwriaeth, safonau, polisïau a gweithdrefnau**

1. deddfwriaeth sy'n ymwneud â gweithio gyda phobl agored i niwed, gan gynnwys:
   1.1 yr amrywiol ddiffiniadau, gan gynnwys rhai cyfreithiol, o blant, pobl ifanc ac unigolion eraill agored i niwed
   1.2 rhannu gwybodaeth, cyfrinachedd a chaniatâd
   1.3 darpariaeth gwasanaethau
   1.4 hawliau plant ac oedolion
   1.5 arfer gwrth-wahaniaethol
   1.6 amddiffyn a diogelu plant
   1.7 gofynion o ran goruchwyliaeth statudol
   1.8 diffiniadau a ffyrdd o fod yn agored i niwed
   1.9 caniatâd yng nghyswllt gweithgaredd rhywiol
2. safonau a chodau ymarfer statudol a phroffesiynol ar gyfer eich maes gwaith, a sut mae eu dehongli a'u cymhwyso
3. polisïau a gofynion gweithdrefnol eich sefydliad yng nghyswllt eich maes cyfrifoldeb

**Eich ymarfer**

4. sut mae rheoli eich cyfrifoldebau fel gweithiwr proffesiynol sydd â gofynion sefydliadol a chontractiol
5. natur, cwmpas a ffiniau eich rôl chi wrth eich gwaith, a pherthynas hynny ag eraill yn eich sefydliad chi a sefydliadau eraill
6. rolau ymarferwyr perthnasol a beth yw'r berthynas rhwng asiantaethau a sectorau ac ar eu traws
7. pwysigrwydd gweithio o fewn eich cylch cymhwysedd, a phryd dylech chi gyfeirio at eraill
8. ffynonellau help a chymorth i chi eich hun wrth ymdrin â'r canlyniadau emosiynol i chi yn sgîl achosion sy'n ymwneud â cham-drin unigolion o grwpiau agored i niwed
9. pwysigrwydd peidio â gweithio yn ynysig, gan ymgynghori â phobl eraill priodol yn ôl y galw, a sut mae gwneud hynny

**Trafod gwybodaeth a chaniatâd**

10. moeseg sy'n ymwneud â chaniatâd a chyfrinachedd, a'r tensiynau a all fodoli rhwng hawliau person a chyfrifoldeb y sefydliad
11. deddfwriaeth a phrosesau cyfreithiol sy'n ymwneud â chaniatâd, gan gynnwys materion capasiti a chaniatâd yn ystod plentyndod a phobl agored i niwed

12. pwysigrwydd cynnwys y person agored i niwed mewn penderfyniadau a wneir ar eu rhan pan na fydd ganddynt y capasiti i roi caniatâd
13. hawliau pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ac i gymryd risgiau
14. sut mae delio gyda materion cyfrinachedd
15. yr wybodaeth y gallai fod angen ei rhannu gydag eraill, a sut mae sicrhau bod y person agored i niwed ac eraill sy'n ymwneud â gofalu amdanynt yn glir ynghylch hynny

**Plant, pobl ifanc ac unigolion eraill sy'n agored i niwed**

16. datblygiad sgiliau cyfathrebu plant a phobl ifanc
17. prif gyfnodau datblygiad plant a sut mae'r rhain yn effeithio ar gyfathrebu â phlant a phobl ifanc
18. anghenion a gofynion gwahanol anghenion corfforol, deallusol a synhwyraidd

**Cyfathrebu**

19. sut mae cyfathrebu'n effeithiol â phobl agored i niwed a'r rhai sy'n ymwneud â gofalu amdanynt
20. pwysigrwydd a dulliau o sicrhau perthynas dda, barchus, llawn ymddiriedaeth gyda phobl agored i niwed a'r rhai sy'n ymwneud â gofalu amdanynt
21. effaith gwahaniaethau mewn perthnasoedd pŵer ar gyfathrebu a pherthnasoedd
22. manteision cyswllt o ddydd i ddydd wrth sefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol
23. pwysigrwydd gweithio mewn ffordd hwylusol, alluogol, a sut mae gwneud hynny
24. pwysigrwydd canolbwyntio ar y person agored i niwed fel unigolyn unigryw
25. sut a pham dylid cynnwys y rhai sy'n ymwneud â gofalu am y person agored i niwed mewn cyfathrebu i gyflawni'r canlyniad mwyaf effeithiol, ac eithrio lle'r achosir y risg gan y gofalwr
26. ffyrdd o addasu a newid cyfathrebu ar gyfer anghenion, cyd-destunau, diwylliannau a chredoau gwahanol
27. sut mae asesu'r angen am wasanaeth dehongli a'i drefnu os bydd angen
28. sut mae defnyddio cymhorthion cyfathrebu i gynnal cyfathrebu
29. dulliau pobl agored i niwed o gyfathrebu yn ôl eu hymddygiad, yn ogystal â thrwy iaith, a sut gellir dehongli gwahanol fathau o ymddygiad
30. effeithiau amgylcheddau, cyd-destunau a phresenoldeb pobl eraill ar gyfathrebu
31. sut gall statws iechyd y person agored i niwed, ac unrhyw driniaeth y mae ef/hi yn ei derbyn, effeithio ar gyfathrebu
32. sut mae cyfathrebu â phobl agored i niwed sydd ag anghenion

ychwanegol
33. pwysigrwydd cydnabod eich teimladau, eich credoau a'ch gwerthoedd, a rhai pobl eraill, fel rhan o'r broses gyfathrebu
34. sut gall teimladau, credoau a gwerthoedd person effeithio ar y broses gyfathrebu
35. pwysigrwydd ymateb yn briodol i gyflwr emosiynol person agored i niwed
36. sut mae osgoi effaith eich teimladau, eich credoau a'ch gwerthoedd personol ar gyfathrebu â'r person agored i niwed, ac eraill sy'n ymwneud â gofalu amdanynt
37. pwysigrwydd rhoi sylw i wahaniaethau diwylliannol fel rhan o'r broses gyfathrebu
38. sut mae gweithio gydag arbenigwyr cyfathrebu mewn ffordd effeithiol
39. sut gellir camddeall cyfathrebu, a phwysigrwydd gwirio dealltwriaeth
40. pwysigrwydd osgoi defnyddio jargon
41. ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth lleol ar gyfer pobl agored i niwed, ac eraill sy'n ymwneud â gofalu amdanynt
42. sut mae galluogi pobl agored i niwed i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a meddu ar eu llais eu hunain
43. sut mae hysbysu, cynnwys a helpu'r bobl agored i niwed i asesu ffyrdd gwahanol o weithredu, deall canlyniadau pob un ohonynt, a, lle bo hynny'n briodol, cytuno ar y camau nesaf.
44. pwysigrwydd peidio â gwneud rhagdybiaethau ynghylch galluoedd cyfathrebu a dealltwriaeth pobl agored i niwed a phobl eraill sy'n ymwneud â gofalu amdanynt
45. yr ystod o deimladau y gallwch eu profi wrth gyfathrebu â phobl agored i niwed
46. pam a sut gall fod angen cyfleu negeseuon anodd i bobl agored i niwed
47. ymatebion priodol i elyniaeth neu wrthdaro, a'r ffordd orau o'u defnyddio
48. egwyddorion arsylwi a gwrando gweithredol, a'u cymhwyso
49. yr angen am ddangos eich bod wedi deall yr hyn sydd wedi'i gyfathrebu
50. mathau o giwiau di-eiriau y mae pobl yn eu rhoi wrth gyfathrebu
51. bod diwylliannau eraill yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffordd wahanol
52. rhesymau pam gall cyfathrebu fethu â datblygu neu dorri i lawr

## Geirfa

**Diogelu / amddiffyniad**

Mae amddiffyniad yn rhan o ddiogelu a hybu lles. Mae'n cyfeirio at y gweithgaredd a wneir i amddiffyn pobl benodol sy'n dioddef, neu sy'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.

Mae cylch gorchwyl ehangach i ddiogelu, ac mae'n cynnwys amddiffyniad rhag triniaeth wael, atal amharu ar iechyd neu ddatblygiad, cynnal darpariaeth gofal diogel ac effeithiol, a galluogi pobl i gael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.

## Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r safon hon wedi'i seilio ar safon 'SFJCYPW1 Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc mewn cysylltiad â'r sector cyfiawnder a diogelwch cymunedol' Sgiliau er Cyfiawnder' a safon Sgiliau er Iechyd 'SFHCS1 Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc a'r rhai sy'n ymwneud â gofalu amdanynt'.

# Cyfathrebu â phobl o grwpiau agored i niwed

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | Ionawr 2013 |
| **Indicative Review Date** | Ionawr 2018 |
| **Dilysrwydd** | ArHynOBryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ AB8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ymgynghorydd Annibynnol ynghylch Trais Rhywiol (ISVA); Eiriolydd Annibynnol ynghylch Trais Rhywiol; Gweithiwr Argyfwng; Gweithiwr Lloches |
| **Cyfres/Set** | Darparu cyngor ac eiriolaeth annibynnol ynghylch trais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | Cyfathrebu; plant; pobl ifanc; unigolion agored i niwed; person agored i niwed; pobl agored i niwed; dewisiadau cyfathrebu; gwahaniaethau cyfathrebu; arbenigwyr cyfathrebu; rhannu gwybodaeth |